

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mawrth 27 Gorffennaf 2021 (09:30 – 10:30)

Microsoft Teams

Yn bresennol

Cyfarwyddwyr: Llinos Roberts (Cadeirydd dros dro)
Ann Beynon
William Callaway
Nia Elias
Yr Athro Jerry Hunter
Meri Huws
Gwilym Dyfri Jones
Pedr ap Llwyd

Sylwedydd: Rhian Huws Williams, Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant (Cadeirydd) (Eitemau 3 a 4)

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)
Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)
Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)
Nia Brown (Swyddog Llywodraethiant)

Ymddiheuriadau: Dr Anwen Jones
Dr Rhodri Llwyd Morgan
Angharad Roberts
Yr Athro Enlli Thomas

Cofnodion Cyfarfod 27 Gorffennaf 2021

1. Eitem 1 – Croeso a materion rhagarweiniol

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
1.1	Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.		

2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
2.1	Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.		
2.2	Nid oedd unrhyw buddiannau ychwanegol nad oedd eisoes wedi'u nodi ar y Gofrestr Buddiannau.		

3. Eitem 3 – Teyrnged gan y Prif Weithredwr

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
3.1	Talodd y Prif Weithredwr deyrnged i Gadeirydd y Coleg, Gareth Pierce, a fu farw'n sydyn ar 3 Gorffennaf 2021.		

4. Eitem 4 – Trefniadau interim y Gadeiryddiaeth

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
4.1	Adroddwyd ar drefniadau interim y gadeiryddiaeth gan yr Ysgrifennydd.		
4.2	Diolchwyd i Llinos Roberts, Is-Gadeirydd y Bwrdd, am gamu i'r bwlch.		
4.3	Cadarnhawyd, yn dilyn ymgynghori gyda Rhian Huws Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant, yr argymhelliad bod Llinos Roberts yn gweithredu fel Cadeirydd dros dro tan ddiwedd Mawrth 2022.		
4.4	Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu gyda'r aelodau ym mis Medi i wahodd unigolion a fyddai'n barod i weithredu fel Is-Gadeirydd dros dro i ddatgan diddordeb.	Aelodau sydd â diddordeb i gysylltu â'r Ysgrifennydd	Medi 2021
4.5	Cytunwyd i ohirio hysbysebu am aelodau newydd i'r Bwrdd tan fis Medi.	Ysgrifennydd i gadarnhau amserlen penodi aelodau newydd i'r Bwrdd yn dilyn ymgynghori.	Medi 2021

5. Eitem 5 – Pwyllgor Archwilio a Risg

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
5.1	Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 26 Mai 2021.		

	<p>Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 26 Mai 2021, gan William Callaway, Cadeirydd y pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd y derbyniwyd sicrwydd rhesymol i'r archwiliad mewnol ar ddiogelwch seibr • Nododd bod tendr pwrpasol ar waith i ganfod Archwilwyr Allanol newydd yn sgil y ffaith na fyddai PwC yn ymgeisio eto 	Aelodau i gynnig awgrymiadau am gwmnïau addas i'w gwahodd i tendro am waith Archwilwyr Allanol y Coleg	Erbyn Medi 2021
5.2	Derbyniwyd adroddiad blynyddol y pwyllgor.		
5.3	<p>Rhodddwyd cyflwyniad llafar ar adroddiad yr Archwilwyr Mewnol, TIAA, ar ddiogelwch seibr gan y Cofrestrydd.</p> <p>Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gyflwyno adroddiad cryno i'r Bwrdd o'r gweithgareddau sydd ar waith i brofi systemau'r Coleg.</p>	Adroddiad cryno i'r Bwrdd ar weithgareddau i ddiogelu systemau'r Coleg	17 Tachwedd 2021

6. Eitem 6 – Y Gofrestr Risg

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
6.1	<p>Cyflwynwyd gorolwg o'r Gofrestr Risg Strategol gan y Cofrestrydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nododd y trafodir y Gofrestr Risg Strategol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg • Nododd mai'r Athro Iwan Davies a heriodd y swyddogion a'r pwyllgor i grynhoi'r ystod risgiau strategol • Cyfeiriodd at y gofid ar ddechrau'r pandemig ynghylch niferoedd myfyrwyr a fu'n ddi-sail 		

	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddodd ar Adolygiad AUGAR Llywodraeth Prydain a'r sgil-ffaith ar strwythur ffioedd Cymru • Adroddwyd ar y tebygrwydd y bydd y ddeddfwriaeth i sefydlu Comisiwn Trydyddol yng Nghymru yn cael ei chyflwyno cyn diwedd y flwyddyn • Adroddwyd ar y Ddeddf Addysg Gymraeg arfaethedig 		
6.2	Yn dilyn trafodaeth argymhellwyd <ul style="list-style-type: none"> • bod y swyddogion yn ystyried ail-ddrafftio risg 6 ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid 	Swyddogion i ystyried cyn y Pwyllgor Archwilio a Risg	Medi / Hydref 2021
6.3	Derbyniwyd y Gofrestr Risg.		
6.4	Ar y pwynt hwn ymadawodd Nia Elias.		

7. Eitem 7 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
7.1	Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2021.		
7.2	Derbyniwyd adroddiad gan yr Ysgrifennydd ar gyllideb terfynol y Coleg ar gyfer 2020/21: <ul style="list-style-type: none"> • Adroddodd ar yr amrywiadau rhwng cyfanswm y gwariant diwedd blwyddyn a'r incwm • Adroddodd bod y cyfrifon yn derfynol a gyda'r Archwilwyr Allanol 		

	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddodd y byddai un addasiad i'w cynnwys yn y cyfrifon archwiliedig pan fyddai manylion diweddaraf cynllun pensiwn USS yn cael eu cyhoeddi 		
--	--	--	--

8. Eitem 8 – Cyfarfodydd nesaf

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
8.1	Trafodwyd dymuniadau'r aelodau ynghylch cwrdd wyneb yn wyneb neu'n rhithiol yn ystod 2021/22. <ul style="list-style-type: none"> • Argymhellwyd cynnal cyfuniad yn dibynnu ar y sefyllfa • Argymhellwyd cadw diwrnod cyfan yn rhydd ar gyfer y cyfarfodydd 	Aelodau i gadw diwrnod cyfan ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd	Parhaus
8.2	Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf: <ul style="list-style-type: none"> • 17 Tachwedd 2021 • 23 Mawrth 2022 • 29 Mehefin 2022 		

9. Eitem 9 – Unrhyw fater arall

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
9.1	Adroddwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Llywodraeth Cymru ar 29 Gorffennaf i drafod Addysg Gychwynnol Athrawon a datblygu'r gweithlu addysg.		

9.2	Adroddwyd y cynhelir noson wobrwyo yn nhymor yr hydref, y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau i nodi dengmlwyddiant y Coleg.		
9.3	Diolchwyd i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr am eu cyfraniadau cyn iddynt ymadael.		

10. Eitem 10 – Adolygu cyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr (caeëdig)

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
10.1	Cyflwynwyd papur yn seiliedig ar argymhellion trafodaethau caeëdig y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gwaith cymharu Gareth Pierce, gan Pedr ap Llwyd, cadeirydd y pwyllgor.		
10.2	Nodwyd: <ul style="list-style-type: none"> • mai'r Bwrdd Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am werthuso cyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr • mai fframwaith UCEA a ddilynr wrth bennu cyflogau staff 		
10.3	Yn dilyn trafodaeth argymhellwyd: <ul style="list-style-type: none"> • bod angen cynnal adolygiad cyflogau teg • bod angen i'r Bwrdd weld polisi adolygu cyflogau yn dilyn adolygiad gan y pwyllgor • newid enw'r pwyllgor i gynnwys cydnabyddiaeth yn y teitl • ni ddylid ôl-ddyddio'r codiad 	Adolygiad cyflogau teg i'w drafod gyda swyddogion Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i adolygu polisi cyflogau Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i ystyried teitl y pwyllgor wrth adolygu cylch gorchwyl	Ionawr 2022 29 Medi 2021

10.4	Cytunwyd i godi cyflogau'r Prif Weithredwr a'r Uwch Reolwyr o 1 Awst 2021 yn unol ag argymhellion 1, 2 a 3 y papur a gylchredwyd ar wahân.		
------	--	--	--

11. Eitem 11 - Diolch

Rhif	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod Amser
11.1	Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.		